# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

**RHAN 7**

TRIBIWNLYS Y GYMRAEG

*Materion gweinyddol*

**131 Swydd y Llywydd yn wag**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw swydd y Llywydd yn wag.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru benodi un neu ragor o aelodau'r Tribiwnlys sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith i arfer unrhyw un neu ragor neu'r oll o swyddogaethau'r Llywydd.

(3) Os na fydd, neu i'r graddau na fydd, swyddogaethau'r Llywydd yn arferadwy gan aelod sydd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith yn unol ag is-adran (2), caiff Gweinidogion Cymru arfer y swyddogaethau.

(4) Ond ni chaiff Gweinidogion Cymru gymryd rhan yn y gwaith o ddyfarnu unrhyw achosion gerbron y Tribiwnlys.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 131 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I2** A. 131 mewn grym ar 7.1.2014 gan O.S. 2013/3140, **ergl. 2(i)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 131.